

Heddlu Gwent

Datganiad Caethwasiaeth Fodern

2020-2021

Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod eu cyfrifoldeb fel cyflogwyr i fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer achosion o gaethwasiaeth fodern ac i roi gwybod am achosion neu bryderon o'r fath i'r cyrff perthnasol.

Beth yw Caethwasiaeth Fodern?

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac mae'n ymyrryd â hawliau dynol sylfaenol. Gall fod ar sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, cam-fanteisio rhywiol, llafur gorfodol a masnachu pobl, a'r hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw bod rhywun yn amddifadu unigolyn o'i ryddid er mwyn cam-fanteisio arno er budd personol neu fasnachol.

Mae Caethwasiaeth Fodern yn flaenoriaeth i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a Heddlu Gwent, ac mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn gwasanaethu fel arweinwyr Cymru gyfan ar gyfer caethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Yn ogystal, yn 2018, sefydlodd y llu dîm pwrpasol i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Mae'r tîm caethwasiaeth fodern yn darparu cymorth ar draws y llu hefyd i sicrhau bod swyddogion a staff yn cael gwybod sut i adnabod ac ymateb i gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a'r Prif Gwnstabl yn ymrwymedig i sicrhau nad oes unrhyw weithgarwch caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yng nghadwyni cyflenwi'r heddlu neu mewn unrhyw ran o'r busnes. Mae polisiâu a gweithdrefnau'r llu yn dangos ein hymrwymiad i weithredu'n foesebol a gydag uniondeb ym mhob un o'n cydberthnasau busnes.

Yn 2017, ymrwymodd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabliaid y pedwar heddlu yng Nghymru i God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae Heddlu Gwent yn gwbl ymrwymedig i fynd i'r afael ag arferion anfoesebol ac anghyfreithlon mewn cadwyni cyflenwi ac mae wedi llunio [Cynllun Gweithredu](#) mewn perthynas â'r ymrwymadau yn y Cod.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a'r Prif Gwnstabl yn rhoi'r Cod ar waith ym mhob rhan o'r busnes gan ganolbwyntio ar bedwar maes:

- **Gorfodi** – gwella'r gwaith o gasglu cudd-wybodaeth drwy gydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- **Caffael Moesebol** – hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi moesebol wrth gyflenwi contractau ar gyfer y gwasanaeth heddlu yng Nghymru
- **Cyflogaeth** – Cymru gyfan yn gweithio tuag at bolisi cyffredin gyda chefnogaeth pob un o'r sefydliadau gan effeithio ar fusnes prif ffrwd a busnes o ddydd i ddydd
- **Amgylchedd** - Sicrhau nad yw'r cyhoedd yng Nghymru yn wylwyr a'u bod yn rhoi gwybod am gam-fanteisio o bob math

Mae'r Strategaeth Caffael ar y Cyd yn cynnwys ffocws cynyddol ar ddarparu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy'r ffordd y mae'r heddlu yn rheoli ei weithgarwch caffael.



Lle y bo'n briodol, bydd y llu, drwy ei brosesau tendro, yn gofyn i gyflenwyr a darpar gyflenwyr sicrhau nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw un o'r dulliau caethwasiaeth fodern uchod yn eu sefydliadau neu gadwyni cyflenwi. Bydd y llu yn disgwyl i'r cyflenwyr hynny gymryd cyfrifoldeb i geisio sicrwydd tebyg o'u cadwyni cyflenwi eu hunain.

Mae Gweithrediaeth Gaffael Genedlaethol yr Heddlu wedi cytuno i sefydlu grŵp cenedlaethol, wedi'i gadeirio gan Arweinydd Caffael Strategol heddluoedd De Cymru, er mwyn rhannu arfer da ar draws sector yr heddlu a llunio cynllun cenedlaethol i archwilio cadwyni cyflenwi ym mhob rhan o wasanaeth yr heddlu. At hynny, mewn partneriaeth gyda Heddlu De Cymru, mae'r llu wedi rhoi arian ar y cyd i ariannu ymgynghorydd allanol i adnabod, adolygu a gweithio gyda chyflenwyr strategol i asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi.

Hyfforddiant

Mae staff Caffael Strategol wedi cwblhau hyfforddiant 'Caffael a Chyflenwi Moesegol' ar-lein y Sefydliad Siartredig ar gyfer Prynu a Chyflenwi a chaiff hwn ei loywi bob blwyddyn.

Yn ogystal â hyn, bydd gofyn i bob aelod o staff wyllo fideo Llywodraeth Cymru am y Cod. Bydd staff sy'n ymwneud â chaffael a/neu recriwtio yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol drwy fodiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru/y GIG.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a'r Prif Gwnstabl yn cymhwyso cyfraddau cyflog byw y Living Wage Foundation ac mae heddluoedd Cymru wedi cytuno i ddatblygu Polisi Chwythu'r Chwiban Cymru Gyfan gan gyfeirio'n benodol at y Cod Ymarfer.

Mae'r amcanion ar gyfer 2020-2021 wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu

Mae gan y cyhoedd a'r staff yr un cyfrifoldeb i fod yn ymwybodol o achosion posibl o gaethwasiaeth fodern neu fusnes sy'n defnyddio llafur gorfodol. Os bydd gennych unrhyw bryderon o'r fath, cysylltwch ag un o'r cyrff canlynol

Heddlu Gwent: Ffôn 101 (neu 999 mewn argyfwng)

Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern: Ffôn 0800 0121700

Crimestoppers: Ffôn 0800 555 111

Lawrlwythwch yr Ap 'Unseen' am ddim

Mae'r Datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a'r Prif Gwnstabl. Caiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.



Jeff Cuthbert
Comisiynydd Heddlu a
Throsedd Gwent



Pam Kelly
Prif Gwnstabl
Heddlu Gwent



08000 121 700



MODERN



Date: 12/05/20